Hawdd ei Ddeall



Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

addo

# Gweithio gyda'n gilydd ar gyfer Ddiwylliant

## Canllaw i gyrff cyhoeddus sy'n gweithio gyda gweithwyr llawrydd diwylliannol

Chwefror 2026

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn Hawdd ei Darllen o: **Gweithio gyda'n gilydd ar gyfer Ddiwylliant: Canllaw i gyrff cyhoeddus sy'n gweithio gyda gweithwyr llawrydd diwylliannol.**




Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** www.futuregenerations.wales/cym

**Email:** cysylltwchâni@cenedlaethaurdyfodol.cymru

**Phone:** 02921 677 400

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Mae **Hawdd ei Ddeall Cymru** wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys


**Am y canllaw yma** ........ **4**

**Am y gweithwyr llawrydd diwylliannol** ........ **7**

**Gweithio gyda'n gilydd** ........ **12**

4 egwyddor allweddol ........ 12

**Beth mae gweithwyr llawrydd ei angen** ........ **16**

**Sut y dylai cyrff cyhoeddus weithio gyda gweithwyr llawrydd ar brosiectau** ........ **18**

**Iaith a diwylliant Cymraeg** ........ **19**

**Enghreifftiau o waith da** ........ **20**

# Am y canllaw yma




Rydyn ni wedi gwneud y canllaw yma ar gyfer **cyrff cyhoeddus**.



Mae **cyrff cyhoeddus** yn sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau'r llywodraeth. Er enghraifft:







- Cynghorau lleol
- Byrddau iechyd
- Gwasanaethau tân ac achub
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Trafnidiaeth Cymru
- Chwaraeon Cymru



Nod y canllaw yma ydy helpu cyrff cyhoeddus i weithio'n dda gyda **gweithwyr llawrydd diwylliannol**.



Mae **gweithiwr llawrydd diwylliannol** yn rhywun sy'n gweithio mewn meysydd fel:

- Celf



- Cerddoriaeth
- Theatr



- Cyfryngau digidol – unrhyw beth fel testun, delweddau a fideo yn cael eu gweld ar-lein.
- Dylunio



Mae **gweithwyr llawrydd** yn gweithio ar wahanol brosiectau ar gyfer gwahanol sefydliadau.


**Mae'r canllaw yma i helpu cyrff cyhoeddus:**



- Cael partneriaethau da gyda gweithwyr llawrydd diwylliannol.



- Cynnwys gweithwyr llawrydd mwy mewn prosiectau. Gan gynnwys wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau.




Mae'r canllaw yma yn dilyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.



Dyma ddeddf sy'n dweud bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus feddwl am sut mae eu cynlluniau a'u penderfyniadau yn effeithio ar bobl nawr ac yn y dyfodol.

# Am y gweithwyr llawrydd diwylliannol



Mae gweithiwr llawrydd yn rhywun sy'n hunangyflogedig. Maen nhw'n dod o hyd i'w gwaith eu hunain ac yn rheoli eu hunain.



Mae nhw'n gweithio i wahanol sefydliadau ar brosiectau.



Mae gweithiwr llawrydd diwylliannol yn weithiwr llawrydd sy'n gweithio mewn meysydd fel:

- Celf
- Cerddoriaeth
- Theatr
- Cyfryngau digidol
- Dylunio.



Mae gweithwyr llawrydd yn aml yn gweithio ar eu pennau eu hunain neu mewn timau bach.

**Mae gweithwyr llawrydd diwylliannol yn gallu helpu cyrff cyhoeddus drwy rannu:**



- Sgiliau creadigol – dod o hyd i ffyrdd newydd o ddatrys problemau a gwneud tasgau.



- Syniadau newydd.



- Gwybodaeth ddiwylliannol – deall pethau fel ein traddodiadau sydd yn cael eu rhannu, hanes iaith a chredoau.

**Mae gweithwyr llawrydd diwylliannol hefyd yn cefnogi nodau Llywodraeth Cymru ar gyfer cael:**



- Diwylliant bywiog – lle mae pobl yn deall ac yn dathlu'r pethau rydyn ni'n eu mwynhau.

- 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

**Mae gweithwyr llawrydd diwylliannol yn helpu mewn sawl ffordd, er enghraifft:**



- **Celf** – Creu celf mae pawb yn gallu ei weld, ei fwynhau a chymryd rhan ynddo.



- **Cymuned** – Cynnal digwyddiadau a chyfarfodydd.



- **Cyngor** – Helpu gyda chynllunio, codi arian, a pholisïau.



- **Dysgu** – Arwain gweithdai a hyfforddiant.



- **Digidol** – Gwneud gwefannau, apiau, a gwahanol fathau o gynnwys ar-lein.



- **Cynhwysiant** – Gwneud yn siŵr bod pawb yn gallu cymryd rhan.



- **Mannau cyhoeddus** – Ychwanegu celf a dylunio i leoedd.



- **Iechyd** – Defnyddio creadigrwydd i gefnogi llesiant.

# Gweithio gyda'n gilydd

## 4 egwyddor allweddol



Dyma 4 egwyddor allweddol i helpu cyrff cyhoeddus a gweithwyr llawrydd diwylliannol weithio'n dda gyda'i gilydd.



Egwyddorion ydy rheolau, syniadau neu gredoau sy'n ein harwain.



1. Bod yn agored ac yn barchus – Siarad yn glir ac adeiladu ymddiriedaeth.



2. Cyflog teg a llogi – Talu gweithwyr llawrydd yn deg a'u llogi'n deg.



3. Gweithio fel partneriaid – Cynnwys gweithwyr llawrydd mewn cynllunio a phrosiectau. Gweithio gyda'n gilydd dros amser.



4. Cymorth hirdymor – Cynnig cymorth a hyfforddiant hirdymor.

**Fe ddylai cyrff cyhoeddus:**



- Cynnwys gweithwyr llawrydd wrth ddylunio a darparu gwasanaethau.



- Darparu hyfforddiant i gefnogi eu gwaith.



- Gwerthfawrogi eu gwaith a beth maen nhw’n ei gynnig.



- Gweithio gydag undebau a grwpiau cymorth i wneud yn siŵr bod gwaith yn deg ac yn cynnwys pawb. Undeb ydy grwp o weithwyr sydd yn helpu pobl i gael cyflog teg, amodau gwaith da a chefnogaeth yn y gwaith.

## Fe ddylai gweithwyr llawrydd:



- Rhannu eu profiad a’u sgiliau.



- Cefnogi gwaith teg.



- Rhannu gwybodaeth.



- Gweithio gyda chymunedau.

# Beth mae gweithwyr llawrydd ei angen




**Cyflog Teg** – Wedi'i dalu'n glir ar amser, gyda chymorth ariannol.



**Cydnabyddiaeth** – Wedi'i gynnwys mewn penderfyniadau a pholisïau.



**Amodau gwaith da** – Cael cyfarwyddiadau clir, contractau teg, a gwaith tîm.




**Adnoddau** – Gweithleoedd, offer a hyfforddiant.




**Cynhwysiant** – Gwaith hyblyg a chefnogaeth i bob math o bobl gwahanol.




Trwy ateb yr anghenion yma, rydych chi'n gallu helpu gweithwyr llawrydd i ddelio â'r heriau o fod yn weithiwr llawrydd.



Mae hefyd yn helpu i wneud gweithlu cryfach.

# Sut y dylai cyrff cyhoeddus weithio gyda gweithwyr llawrydd ar brosiectau





- Defnyddio contractau hyblyg. Er enghraifft, contractau sy’n gadael i weithwyr llawrydd ddewis oriau gwaith sy’n gweddu orau iddyn nhw a’r gwaith.




- Gweithio gyda’n gilydd ar geisiadau – ceisiadau am arian i ariannu prosiectau newydd.



- Rhannu syniadau a pherchnogaeth prosiectau.




- Gosod nodau clir, darparu digon o adnoddau, a chaniatáu amserlenni hyblyg.




- Edrych ar, ac adolygu prosiectau.

# Iaith a diwylliant Cymraeg

Mae'r Gymraeg yn bwysig i'n diwylliant. Fe ddylai gael ei defnyddio mewn gwaith creadigol a gwasanaethau cyhoeddus.




Fe ddylai pawb allu defnyddio'r Gymraeg.



Mae'r canllaw yma yn annog gweithwyr llawrydd a chymunedau i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'n cefnogi pob lefel sgiliau ac yn adeiladu hyder.




Mae hyn yn cefnogi nod Cyngor Celfyddydau Cymru. Maen nhw eisiau i'r Gymraeg gael ei defnyddio ar gyfer creadigrwydd, dysgu, a rhoi mwy o gyfleoedd i bobl.

# Enghreifftiau o waith da

## Artist mewn Gwasanaeth – Rhondda Cynon Taf



Mae 2 artist lleol wedi bod yn gweithio gyda'r cyngor a chymunedau am 8 mis.



Roedden nhw'n defnyddio gwybodaeth a chreadigrwydd lleol.



Roedd y rhaglen yn canolbwyntio ar gyflog teg, cyfathrebu clir, hyblygrwydd, a phartneriaethau hirdymor.

## Rhaglen Natur Greadigol – Cyfoeth Naturiol Cymru



Mae'r rhaglen yma yn cysylltu pobl â materion natur, diwylliant a hinsawdd.



Mae'n helpu cymunedau sy'n aml yn cael eu gadael allan.



Mae gweithwyr llawrydd yn chwarae rôl allweddol wrth gynllunio a chyflawni'r gwaith.

## Creadigrwydd mewn Gofal Iechyd – Bwrdd Iechyd Hywel Dda



Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda Chyngor y Celfyddydau i ddod â chreadigrwydd i ofal iechyd.



Mae Tîm Celfyddydau ac Iechyd yn helpu i wella gwasanaethau, gofodau a phrofiadau i staff a chleifion.